DATGANIAD I'R WASG
Dydd Llun 31 Mai 2010

Y FEDAL GYFANSODDI

Arwel Rhys Williams, Aelod Unigol, Cylch Llanelli sydd wedi ennill Tlws y Prif Gyfansoddwr yn Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010 heddiw.

Derbyniodd Arwel ei addysg yn Ysgol Gynradd Dewi Sant ac Ysgol Uwchradd y Strade cyn astudio Lefel A yng Ngholeg Gorseinon. Aeth Arwel yn ei flaen i dderbyn gradd mewn Cerdd ym Mhrifysgol Bangor.

Wedi graddio, dewisodd Arwel gwblhau gradd Feistr mewn Cyfansoddi ar gyfer Ffilm a Theledu ym Mhrifysgol Kinsgton, Llundain, cyn dychwelyd i Fangor i ddilyn cwrs i fod yn athro.

Un o brif ddiddordebau Arwel yw chwarae'r piano a'r organ ac mae'n ddiolchgar tu hwnt i'r sawl a'i dysgodd i'w chwarae pan yn iau, sef Tydfil Rees Enston ar y piano ac Alan Fewster ar yr organ.

Heddiw, mae Arwel yn rhannu ei arbenigedd ar y piano gyda phlant a phobl ifanc yn wythnosol, a hynny yng Nghanolfan Gerdd William Mathias. Mae'n cynnal gwersi piano yn y ganolfan yng Nghaernarfon ac yn ymweld â nifer o ysgolion lleol fel athro teithiol.

Mae Arwel wedi derbyn sawl llwyddiant ar lwyfan yr Eisteddfod dros y blynyddoedd, gan gystadlu sawl gwaith ar yr unawd piano. Arwel gipiodd Tlws y Prif Gyfansoddwr yn Eisteddfod yr Urdd Conwy 2008.

Aled Wyn Clark, Aelod Unigol, Cylch Rhuddlan, Sir Ddinbych ddaeth yn ail ac Ieuan Wyn, o Aelod y Waun Ddyfal, Caerdydd yn drydydd. Beirniaid y gystadleuaeth eleni oedd John Metcalf a Guto Pryderi Puw, a rhoddwyd y Fedal, Medal Goffa Grace Williams gan Alan Wynne Jones ac Ann Jones, ynghyd â gwobr Glynne Jones (£400) o Gronfa Ymddiriedolaeth Pendyrus. Noddwyd y seremoni gan Gyngor Tref Aberystwyth.

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360 neu Manon Llwyd 07976 330361

PRESS RELEASE
Monday 31 May 2010

MEDAL FOR MUSIC COMPOSITION

Arwel Rhys Williams from Llanelli has won the Medal for Music Composition in a ceremony on the first day of Urdd Gobaith Cymru's National Eisteddfod in Ceredigion.

Arwel was educated at Ysgol Gynradd Dewi Sant and Ysgol Uwchradd y Strade before studying for his A Level at Coleg Gorseinon. Arwel then chose to continue his studies at Bangor University where he received a degree in Music.

After graduating from Bangor University, Arwel gained a Masters degree in Composing Music for Television and Film at Kinsgston University, London, before returning to Bangor to follow a PGCE course.

One of Arwel's main interest is playing the piano and organ. He's very grateful for the training he received for both instruments when younger, the piano by Tydfil Rees Enston and the organ by Alan Fewster.

Today, children and young people benefit from Arwel's musical expertise at William Mathias Centre. Arwel teaches piano lessons regularly at the centre in Caernarfon as well as at local schools as a peripatetic teacher.

Arwel is no stranger to the Urdd Eisteddfod stage, having competed many times in the piano recital competition over the years. Arwel also won this very Medal at the 2008 National Urdd Eisteddfod held in Conwy.

Aled Wyn Clark, Individual Member, Cylch Rhuddlan, Denbighshire came second with Ieuan Wyn, from Aelwyd Waun Ddyfal, Cardiff taking the third prize. John Metcalf and Guto Pryderi Puw were the adjudicators, and the Grace Williams Memorial Medal was donated by Alan Wynne Jones and Ann Jones, and the Glynne Jones prize (£400) from the Pendyrus Trust Fund. The ceremony was sponsored by Aberystwyth Town Council.

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360 or Manon Llwyd 07976 330361